Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 24 Ebrill 2023

Mai 2023

senedd.cymru

# 1. Cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am gynnal gwaith craffu yn y Chweched Senedd ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried effaith cytundebau rhyngwladol ar Gymru mewn cysylltiad â'r rhai a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:

- A yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 24 Ebrill 2023[1] gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a osodwyd yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027
- DU-INTERPOL: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU

**6.** Cytunwyd i gymryd camau pellach mewn perthynas ag un o'r cytundebau. Mae manylion pob un o'r cytundebau a'n camau gweithredu priodol wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 24 Ebrill 2023

# 2. Cytundeb y mae angen gweithredu pellach yn ei gylch

### Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 24 Mawrth 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Mai 2023.

**8.** Mae'r cytundeb hwn yn darparu mecanwaith i'r DU, Iwerddon a'r UE barhau i gyd-ariannu gweithgareddau trawsffiniol sy'n hyrwyddo heddwch a chymod, a chyfrannu at ddatblygiad economaidd a thiriogaethol trawsffiniol rhanbarth y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon ar ôl Brexit.

**9.** Cyn gadael yr UE, ymrwymodd y DU i barhau i ariannu PEACE PLUS – sef rhaglen ariannu heddwch trawsffiniol yr UE – ynghyd â Gogledd Iwerddon, Iwerddon a'r UE. Bydd y cytundeb rhyngwladol hwn yn llywodraethu'r broses o roi rhaglen PEACE PLUS ar waith, ynghyd â chyfraniadau'r partïon.

**10.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae 'cysylltiadau rhyngwladol' yn cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU a chysylltiadau â'r UE a'i sefydliadau.

**11.** Nid yw'r Memorandwm Esboniadol i'r cytundeb yn cyfeirio at ddatganoli; fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod Adran Gyllid Gogledd Iwerddon wedi'i chynnwys yn y broses o drafod y Cytuniad a bod testun drafft wedi'i rannu cyn ei lofnodi.[2]

**12.** Gan fod y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i gyd wedi cynnal – neu wrthi'n cynnal – gwaith ar drefniadau ariannu'r UE ar ôl Brexit, cytunwyd i dynnu sylw'r pwyllgorau hyn, sy'n bwyllgorau'r Senedd, at y cytundeb hwn.

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm esboniadol: Y DU/Iwerddon/CE: Cytundeb Ariannu ar Raglen PEACE PLUS 2021-2027, Mawrth 2023, paragraff 10.1 (Saesneg yn unig)

# Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**DU-INTERPOL: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU**

**13.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 24 Mawrth 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer gwaith craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010, yw 18 Mai 2023.

**14.** Mae'r cytundeb hwn yn caniatáu breintiau ac imiwneddau penodol i sefydliad rhyngwladol yr heddlu troseddol (sef INTERPOL), ei swyddogion a chynrychiolwyr o'r gwledydd, sy'n cwmpasu eu gweithgareddau yn y DU. Mae hyn yn ofyniad ar y DU i gynnal Cynulliad Cyffredinol INTERPOL 2024, fodd bynnag, bwriedir i'r cytundeb hwn hefyd ddarparu fframwaith hirdymor i lywodraethu breintiau ac imiwneddau INTERPOL yn y DU.

**15.** Mae'r cytundeb yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol sy'n fater a gadwyd yn ôl at ddibenion Atodlen 7A i *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae 'cysylltiadau rhyngwladol' yn cynnwys cysylltiadau â sefydliadau rhyngwladol megis INTERPOL.

**16.** Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*In light of the operational impacts of such privileges and immunities on matters that may be devolved such as justice or policing, the UK Government consulted the Devolved Administrations.*"[3]

**17.** Gan nad yw cyfiawnder a phlismona wedi'u datganoli yng Nghymru, mae hyn yn awgrymu mai dim ond Llywodraeth yr Alban yr ymgynghorwyd â hi, gan fod y Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth yr Alban yn paratoi ail Orchymyn – a Gorchymyn cyfochrog – yn y Cyfrin Gyngor i Lywodraeth y DU.[4]

**18.** Gan na fydd effeithiau gweithredol breintiau ac imiwneddau o'r fath yn effeithio ar feysydd datganoledig yn yr un modd yng Nghymru ag y byddant yn yr Alban, cytunwyd i nodi'r cytundeb er gwybodaeth yn unig.

[3] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU, Mawrth 2023, paragraff 10.2 (Saesneg yn unig)
[4] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Cytundeb ar Freintiau ac Imiwneddau INTERPOL ar Diriogaeth y DU, Mawrth 2023, paragraff 10.3 (Saesneg yn unig)